

139)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Zoom 15/02/21—7.30pm.

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Annette Davies,E.Jones,M.Griffiths,H.Lewis,G.Jones,V.Davies,D.Davies, Linda Evans.

Y.Griffiths,Arwel Davies,B.Cobain.

Ymddiheuriadau(apologies):S.Mason,M.Evans,.Clerc:Anita Evans, Heddlu:neb/none

1)Croeso gan y Cadeirydd Annette Davies a derbyn ymddiheuriadau/Chairman welcomed all to the meeting.

2)Datgan diddordeb/declaration of interest—Eirian Jones—holiadur Bro Teifi-page 140 8(c)—questionnaire.

3)Heddlu/police—no-one attended.Anfonir ein gofid am gŵn yn cael eu dwyn/dog thefts are a worry.

4)Cadarhau Cofnodion mis Ionawr/January minutes found to be correct:prop.Y.Griffiths;sec.M.Griffiths.

Enw Linda Evans ddim yn y rhestr ‘cynghorwyr yn bresennol’.

5)Materion y Clerc/Clerk matters:

a)C.Sir—yn dal i dalu bil trydan Cyfleusterau Pencader/Co.Council still pay for the toilet block electricity in Pencader.

b)Darren King(rheolwr priffyrdd)wedi ateb ein llythyr am broblemau hewl Pontweli-cynnigiodd H.Lewis ein bod yn gwahodd y swyddog mas i gwrdd â rhai o’r Cynghorwyr er mwyn mynd o gwmpas y Plwyf i ddangos y problemau.Eiliodd M.Griffiths.Following response from D.King(Highways Service Manager)re road problems across the Parish,we will invite the officer to meet us in the Parish,and visit different locations to show why we complain.

c)Tony Williams-wedi ateb ein cwynion:draeniau ar bwys Capel Penybont i’w glanhau;ffosydd ar hewl Glantweli Fach i’w glanhau;cerrig ar y palmant Maesderwenydd/Bro Gwen i’w clirio; coed top rhiw Alltwalis i’w harchwilio;mynd I ail-osod yr arwyddion sy wedi troi,ac yn archebu arwydd newydd pentref Pontweli.The Highways dept.are dealing with our January complaints:drains by Penybont Chapel,and Glantweli Fach road are to be cleared;also chippings to be cleared from the pavements of Bro Gwen and Maesderwenydd,Pencader;intending to adjust the road signs facing the wrong way,and is ordering a new village sign for Pontweli.

ch)Goleuadau Pontweli:Kevin Jones(adran goleuadau)yn trefnu cywiro’r rhai sy angen,a newid y gweddil i LED/the street light dept.is dealing with our faults,and finalising the changeover to LED in Pontweli.

d)Helen Rice(cynllunio)mae Priffyrdd wedi gwrthwynebu cais Tawelan, Dolgran am lefydd parcio ochr draw’r hewl i’r ty.Doedd dim angen caniatad cynllunio ar Farmers Pencader i godi’r adeilad yn y blaen.**Highways have objected to Tawelan,Dolgran creating parking spaces across the road from house.**No permission needed at Farmers,Pencader.

dd)Cynllunio-- plot ar bwys Brynhyfryd,Pencader—eb cydnabod ein cynnig/email from planning acknowledgement of our proposal for siting a dwelling adjacent to Brynhyfryd,Pencader.

e)Neuadd Alltwalis—Cynghorwyr yn hapus gyda esboniad D.Wyatt o ofynion eu grantiau/Councillors are happy with reply from D.Wyatt re conditions of grant for Alltwalis School Hall.-----

6)Cyfrifon/Finances:cafwyd yn gywir/passed as correct:prop.B.Cobain,sec:Y.Griffiths.Current bills.cyflogau/wages:

£1,953.47;Clerc costau:£43.17;Kangaloos:£480.00;Ieuan Thomas(safety of Cemetery shed)£65.00

i’w talu/to be paid:prop.E.Jones,sec.B.Cobain.

140)7)Cynllunio/planning:

Ceisiadau yn y safleoedd canlynol wedi eu e-bostio i'r Cynghorwyr/following have been e-mailed to Councillors— with no objections raised:

Marshlands House, Moriah Chapel, Brynywawr (Alltwalis), Crud yr Awel (Pencader), Eithinog (Pontweli).

.....

8) Gohebiaeth/Correspondence: C.Sir Gar:

a) Pwyllgor Craffu-gwybodaeth/Scrutiny Committees within the county—information.

Eraill: b) Mrs. C. Davies, Llan'el –gofyn am offer i godi sbwriel oddiar y cloddiau/gofyn am balmant o sgwâr Llan'el I ddiwedd y 40mya tuag at Llanllwni. Bydd y Clerc yn ei chyfeirio at y C.Sir. E. Mail from Mrs. C. Davies requesting litter picking equipment, and also a pavement from Llan'el square to the end of the 40mph on the Llanllwni Rd. Clerk will advise contacting Co. Council.

c) Ysgol Bro Teifi—holiadur i'w llenwi/questionnaire re opinions for the future of the school.

ch) Menter Mynyddoedd Cambrian/Initiative—info on findings.

d) H. Lewis—i) bosib gwneud hyfforddiant/defibrillator training is possible over the internet.

ii) Capel Alltwalis—ar werth, ac mae angen i'r Cyngor yma sicrhau fod mynediad cefn gyda ni i'r Fynwent/we need to ensure that we have a rear entrance to the Cemetery at Alltwalis, now that the Chapel is for sale. iii) Mae gofalwr Mynwent Pencader wedi nodi fod Gwaith ychwanegol i'w wneud yno—angen newid rhai postion/clirio'r mynyddoedd pridd/prynu chwyn laddwr at y llwybr/extra work to be carried out at the Parish Cemetery. B. Cobain proposed to grant permission, and V. Davies seconded.

.....

9) U.F. Arall/A.O.B. (info only):

a) B. Cobain: gofyn a fyddai'n syniad i sefydlu cyfleusterau cyhoeddus fel estyniad i'r Pafiliwn, ochr draw'r ffordd i'r Cornel Chwarae. Cynnigiwyd fod llythyr yn mynd at PIDA i holi barn—H. Lewis yn cynnig, ac Arwel Davies yn eilio. A suggestion was made for the possibility of siting a public toilet for Pencader in the grounds of the Pavillion, perhaps as an extension. We will contact PIDA to glean opinions—H. Lewis proposed and Arwel Davies seconded.

b) G. Jones—hewlydd ffordd Glantweli Fach yn gwaethygu/roads are deteriorating.

c) Arwel Davies—golau ar bwys Fferm Cross Inn ddim yn gweithio; dŵr yn rhedeg lawr rhiw Gwyddgrug o gyfeiriad troad Lan -mae'r gwteri'n orlawn/street light faulty by Cross Inn Farm; drains overflowing by Lan entrance.

ch) Y. Griffiths—goleuadau VAS ddim yn gweithio/faulty VAS signs still not repaired.

d) V. Davies—peryl o lif yn Plygyrhiw/flood danger at Plygyrhiw, Pontweli.

dd) Annette Davies—croesfan sebra Maescader a sgwâr Lla'el/sebra crossings still not re-painted.

e) E. Jones—arwyddion dim ysmegu ar wefan y Cynnulliad, i'w gosod mewn parciau cyhoeddus—gyda diryw o £100 am beidio cydymffurfio/There is a template on Welsh Government web-site warning not to smoke in public places, with a fine of £100 which Co. Council will monitor.

f) Clerc: arwyddion Covid i'w gosod yn y Plwyf/new Covid signs received from Co. Council.

ff) C. Sir L. Evans—jettors have been out in the Parish. Meeting finished 9.05. Cyfarfod nesa/next date 15/03/21